CYPE(6)-08-21 – Papur i'w nodi 4


Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig
—
Economy, Trade and
Rural Affairs Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565


Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1 Rhagfyr 2021

Annwyl Jayne,

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Hydref ynghylch y dull o gynnal gwaith craffu ar y Bil uchod, ac am wahodd Aelodau'r Pwyllgor hwn i sesiwn friffio dechnegol ar y Bil ar 4 Tachwedd.

Bu Aelodau'r Pwyllgor yn trafod y mater, ac rwy'n falch bod Hefin David AS wedi gallu bod yn bresennol. Fel y gwyddoch, mae'n siŵr, mae Hefin hefyd yn cadeirio'r Grŵp Trawsbleidiol ar Brifysgolion, sy'n cymryd diddordeb mawr yng nghynnydd y Bil.

Mae eisoes gan y Pwyllgor hwn raglen waith dra llawn wedi'i chynllunio at wanwyn 2022 a thu hwnt. Fodd bynnag, o gofio bod ein cylch gorchwyl yn cynnwys sgiliau ac ymchwil a datblygu, byddai’r Aelodau’n croesawu cael eu cadw i’r funud yn fawr ynghylch y cynnydd a wneir gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wrth gynnal gwaith craffu ar filiau, ac am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. Rwy'n hapus i'r ddau dîm clercio rannu gwybodaeth i hwyluso hynny.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both Welsh and English.